**Beirniadaeth Cystadleuaeth 370**

**Rhyddiaith Bl.4 ac iau (D)**

**Beirniad: Nesta Davies**

**1af - (Tryffles a'r Ddraig) - Draig Ddu**

**2il - Taith Fferm Folly - Pixy**

**3ydd - Nadolig - Draig Goch**

1. **Adborth ar y Stori: Tryffles y Gwningen a'r Ddraig**

Roedd hi'n bleser darllen y stori am Tryffles yn helpu'r ddraig. Roedd yn syniad gwreiddiol ac fe lwyddodd yr awdur i ddal fy sylw o'r dechrau.

- Llwyddwyd i greu awyrgylch dechreuol da trwy ddisgrifio'r tywydd yn "gymylog ac yn dywyll" ac roedd y berthynas a'r hiwmor rhwng Tryffles a'r ddraig yn gredadwy ac yn y diwedd pan oedd y ddau yn chwerthin.
- Roedd y sgwrs rhwng y ddau gymeriad yn effeithiol ac yn symud y stori ymlaen yn naturiol.
- Mae'n amlwg bod llawer o feddwl ac ymdrech wedi mynd i ysgrifennu'r stori yma a braf oedd gweld y cywirdeb iaith o ran sillafu a threiglo.

**Awgrym ar gyfer y Tro Nesaf**

Ceisiwch ddefnyddio mwy o ansoddeiriau effeithiol i ddisgrifio'r cymeriadau e.e. Pa mor sgleiniog yw crafangau'r ddraig neu pa mor esmwyth yw ffwr Tryffles, ac efallai disgrifiad o'r ogof. Byddai hyn yn helpu'r darllenydd allu ddychmygu a chreu darlun o leoliad a chymeriadau'r stori.

Daliwch ati efo'r gwaith gwych. Mae gennych ddawn i adrodd stori.

2. **Adborth ar y Stori: Taith Fferm Folly -Pixy**

Mwynheais yn fawr ddarllen am y daith i Fferm Folly. Roedd yn amlwg o'r dechrau bod hwn wedi bod yn ddiwrnod llwyddiannus a llawen iawn.

- Roedd yn dda gweld amrywiaeth o ran sut oedd y brawddegau wedi eu strwythuro, sy'n dangos defnydd da o sut i osod stori at ei gilydd.
- Roedd y disgrifiad o'r ddau grocodeil yn "wincio" ar yr awdur yn effeithiol iawn.
- Braf oedd gweld ymdrech i ddefnyddio cyffelybiaethau e.e. Ciwt fel babi, mawr fel mynydd." Mae defnyddio technegau fel hyn yn lliwio'r iaith ac yn gwneud y gwaith yn llawer mwy diddorol i'r darllenydd.

**Awgrym ar gyfer y Tro Nesaf**

Gall brawddeg gyntaf da "fachu" y darllenydd ar unwaith. Efallai byddai'n syniad meddwl am hyn wrth fynd ati i lunio rhyddiaith yn y dyfodol e.e Gyda gwen fawr ar fy wyneb a chalon yn neidio fel cwningen, roedd hi'n amser cychwyn ar y daith i Fferm Folly".

Cofiwch beintio llun gyda'ch geiriau!

Daliwch ati efo'r gwaith gwych.

3. **Adborth ar y Stori: Hip Hip Hwre! - Draig Goch**

Mwynheais yn fawr ddarllen am y diwrnod Nadolig.

Roeddwn i wrth fy modd yn gweld y gair "Shwmae" ar ddechrau'r darn. Mae'n ffordd mor bositif, gyfeillgar a Chymreig o groesawu'r darllenydd i mewn i'r stori. Roedd yn gosod naws hyfryd ar gyfer gweddill y gwaith.

Roedd y defnydd o frawddegau a ffurf gryno'r ferf yn gywir, yn amrywiol ac yn effeithiol drwy'r darn. Roedd yn disgrifio'r diwrnod yn glir, gan wneud i mi deimlo fy mod i yno gyda chi ar y daith.

**Awgrym ar gyfer y Tro Nesaf**

Y tro nesaf, ceisiwch 'beintio llun' yn meddwl y darllenydd. Defnyddiwch ansoddeiriau i ddisgrifio sut olwg sydd ar bopeth, a defnyddiwch ddeialog i adael i'ch cymeriadau siarad â'i gilydd. Bydd hyn yn gwneud eich stori yn llawer mwy cyffrous!"

Mae gennych chi sylfaen wych, nawr mae'n amser ychwanegu'r manylion hudol hynny! Daliwch ati!

**Adborth Cystadleuaeth i'r rhai oedd ddim yn fuddugol Rhyddiaith 370**

Llongyfarchiadau mawr i bawb a gymrodd ran yn y gystadleuaeth ryddiaith blwyddyn 4 ac iau eleni! Roedd hi'n bleser pur darllen gwaith yr holl gystadleuwyr, ac mae'n amlwg bod ymdrech arbennig wedi mynd i bob un darn.

Fel dysgwyr y Gymraeg, roedd hi’n amlwg bod nifer o’r cystadleuwyr wedi dilyn sgaffald iaith er mwyn strwythuro eu gwaith. Fodd bynnag, roedd hi’n galonogol iawn gweld bod rhai o’r plant wedi dechrau arbrofi gyda sut i lunio brawddegau eu hunain er mwyn creu effaith.

Mae’n amlwg bod y cystadleuwyr i gyd wedi gweithio’n galed i feistroli sut i lunio brawddegau sy’n gweithio’n dda yn y Gymraeg, ac roedd y safon yn uchel iawn.

Dyma ambell i awgrym defnyddiol at y dyfodol:

- Gwirio sillafu / typo cyn anfon eich cais i mewn yn y dyfodol.
- Ceisio creu awyrgylch trwy ddefnydd effeithiol o ansoddeiriau ac ambell i idiom / gymhariaeth.
- Ymchwilio ac amrywio cystrawennau a pheidio bod yn or ddibynnol ar sgaffald iaith.

Mawr obeithiaf y bydd yr holl ymgeiswyr yn parhau yn eu hymdrechion. Da iawn wir!